Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras – Asesiad Parcio

Mae TACP Architects Ltd wedi cynnal yr asesiad maes parcio canlynol yn unol â'r canllawiau a nodir yn: **Y Cynllun Datblygu Unedol 1996 – 2011.** Cyfeiriwyd hefyd at y canllawiau cynllunio atodol sydd yn **Canllaw Cynllunio Lleol CBSW Nodyn Rhif 16,** sy'n gosod y safonau parcio canlynol ar gyfer ysgolion**.**

Canllaw Cynllunio Atodol – Canllaw Cynllunio Lleol Nodyn Rhif 16 - Safonau Parcio (Mabwysiadwyd Tachwedd 2000 a diweddarwyd Gorffennaf 2018)

Ffigur D1 – Sefydliadau amhreswyl

Safon Parcio: 2 fan parcio yn ogystal â

1 man parcio fesul 25m^2 o arwynebedd llawr gros

Safon Parcio Beics:

1 man parcio beic fesul 250m2 o arwynebedd llawr gros

Ysgol Bresennol

Lleolir yr ysgol gyfredol ar Ffordd Parc Borras, Wrecsam, LL12 7TH ac mae'n darparu addysg i ddisgyblion ysgol babanod ac ysgol plant iau mewn dau adeilad ar wahân. Mae meddygfa hefyd ar y safle, sydd wedi ei chysylltu ag adeilad yr ysgol iau. Mae dwy brif fynedfa i gerbydau, un ar gyfer pob ysgol, ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio i gael mynediad at yr ardaloedd parcio ceir. Mae'r mynedfeydd hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer gwasanaethu'r ddwy ysgol h.y. darparu cyflenwadau cegin a chasgliadau gwastraff. Mae'r safle cyfredol cyfan yn darparu lle parcio i 53 o geir, fel y nodir yn y tabl isod. Mae'r cyfanswm o lefydd parcio a nodir isod yn cynnwys unrhyw fannau parcio ceir a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer y feddygfa.

Niferoedd Mannau Parcio Ceir Cyfredol								
Ysgol Babanod				Ysgol Iau			Safle Cyfan	
Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU			Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU		Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU
Arwynebedd Llawr m2	1223			Arwynebedd Llawr m2	1548		Arwynebedd Llawr m2	2771
	Mannau parcio ceir	Mannau Parcio Ceir Hygyrch	CYFANSWM		Mannau parcio ceir	Mannau Parcio Ceir Hygyrch	CYFANSWM	**CYFANSWM LLAWN**
	12	0	**12**		40	1	**41**	Mannau parcio ceir	**53**
Beics				Beics			Beics	**0**

Cynllun Arfaethedig

Mae'r prosiect hwn yn golygu creu dwy ysgol newydd, un cyfrwng Cymraeg ac un cyfrwng Saesneg. Yr ysgol fabanod fydd yn gartref i'r Ysgol Cyfrwng Cymraeg tra bydd yr ysgol iau yn cael ei hymestyn ar gyfer yr Ysgol Cyfrwng Saesneg. Bydd yr ysgolion yn cadw'r mynedfeydd presennol, a bydd gan y ddwy ysgol feysydd parcio ceir pwrpasol a meysydd a rennir. Bydd yr ysgolion yn elwa o fannau parcio / gollwng, yn ogystal â man troi newydd o fewn y maes parcio ceir canolog arfaethedig.

Yn seiliedig ar ymestyn yr ysgol iau er mwyn creu'r ysgol newydd cyfrwng Saesneg, mae gofyniad i gynyddu capasiti parcio ceir o 56 yn unol â gofyniad Canllaw Cynllunio Lleol CBSW, Rhif Nodyn 16. Mae'r llefydd parcio ychwanegol sydd eu hangen wedi eu cyfrifo yn seiliedig ar arwynebeddau llawr gros y ddau estyniad i'r adeilad cyfredol. Nodir y mannau parcio ceir arfaethedig ar y cynllun safle arfaethedig, y mae rhan ohono wedi ei gynnwys ar ddiwedd y ddogfen hon. Dylid nodi nad yw'r ffigwr hwn yn cynnwys mannau parcio pwrpasol y feddygfa.

Niferoedd Mannau Parcio Ceir Arfaethedig – Yn seiliedig ar CCLl CBSW Nodyn Rhif 16 – Adeiladau Newydd yn Unig

Ysgol cyfrwng Cymraeg				Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras				Safle Cyfan	
Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU			Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU			Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU
Arwynebedd Llawr m2	0			Arwynebedd Llawr m2	1349			Arwynebedd Llawr m2	1349
	Mannau parcio ceir	Mannau Parcio Ceir Hygyrch	CYFANSWM		Mannau parcio ceir	Mannau Parcio Ceir Hygyrch	CYFANSWM		**CYFANSWM LLAWN**
Mannau Arfaethedig	0	0	**0**	Mannau Arfaethedig	51	5	**56**	Mannau parcio ceir	**56**
Beics			0	Beics			5	Beics	**5**

Felly mae'r cyfuniad o'r cyfanswm presennol o 53 o fannau parcio ceir, yn ogystal â'r 56 man parcio ychwanegol arfaethedig, yn creu gofyniad am gyfanswm o 109 o fannau parcio ceir. Er mwyn cefnogi'r ddwy ysgol mae gan y ddwy ohonynt ardaloedd o fannau parcio pwrpasol ger prif fynedfa pob ysgol. Mae hyn yn cael ei ategu ymhellach gan yr ardal parcio ceir canolog a'r ardal gollwng, lle mae mannau parcio ceir wedi cael eu dyrannu yn ôl eu cyfran i bob ysgol, yn ôl eu maint cymharol. Gweler y tabl isod, sy'n nodi'r ffigyrau a ddisgrifir yn fwy manwl .

Niferoedd Mannau Parcio Ceir Arfaethedig


Ysgol cyfrwng Cymraeg			
Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU		
Arwynebedd Llawr m2	1223		
	Mannau parcio ceir	Mannau Parcio Ceir Hygyrch	CYFANSWM
Mannau Arfaethedig	26	2	**28**
Beics			5

Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras			
Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU		
Arwynebedd Llawr m2	2920		
	Mannau parcio ceir	Mannau Parcio Ceir Hygyrch	CYFANSWM
Mannau Arfaethedig	67	5	**72**
Beics			12

Safle Cyfan	
Niferoedd Disgyblion	I'W GADARNHAU
Arwynebedd Llawr m2	4143
	CYFANSWM LLAWN
Mannau parcio ceir	**100**
Beics	**17**
Gollwng / Parcio	**9**

Ystyriwyd trefniant yr ardal parcio ceir canolog er mwyn galluogi cerbydau i gael mynediad mor effeithiol â phosibl i'r safle; gyda rhan o ffordd fynediad wedi ei darparu cyn y lle troi er mwyn galluogi elfen o stacio cerbydau o fewn y safle.

<u>Darpariaeth Arfaethedig o Fannau Parcio Ceir</u>



.